# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 21-08)

**Dyddiad: 24 Medi 2008**
**Amser: 9:30am - 11:20am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones, (Cadeirydd) Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Andrew RT Davies, Canol De Cymru
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr y Pwyllgor

Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Susan Morgan, Gwasanaethau Cyfreithiol
Gwyn Griffiths, Gwasanaethau Cyfreithiol

### Eraill yn bresennol

John Griffiths AC, Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau
Dr Dennis Gunning, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Barbara Morris, Pennaeth Polisi Gweithredol a Datblygu Rhaglenni

David Rosser, Cyfarwyddwr, CBI Cymru
Leighton Jenkins, Cyfarwyddwr Polisi Cynorthwyol, CBI Cymru

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jeff Cuthbert a Huw Lewis.

1.3 Datganodd Christine Chapman ddiddordeb fel Aelod o'r Institute of Career Guidance.

### 2: Y Mesur Prentisiaethau Drafft
### Papurau: EL(3) 21-08 - Papur 1, EL(3) 21-08 - Papur 2

### Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

2.1 Croesawodd y pwyllgor John Griffiths AC, Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau; Dr Dennis Gunning, Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes a Barbara Morris, Pennaeth Polisi Gweithredol a Datblygu Rhaglenni.

### CBI - Cymru

2.2 Croesawodd y pwyllgor David Rosser, Cyfarwyddwr, CBI Cymru a Leighton Jenkins, Cyfarwyddwr Polisi Cynorthwyol, CBI Cymru.

2.3 Bu'r pwyllgor yn craffu ar waith y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu:

Copi o'r cymalau yn ymwneud â Chymru a gaiff eu cynnwys yn y Mesur Prentisiaethau Drafft, a fydd yn cael ei gynnwys yn sesiwn 4 o'r

Mesur Addysg a Sgiliau. Bydd y pwyllgor yn craffu ar hyn maes o law;

Cadarnhau pryd yr ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Weinidogion Llywodraeth y DU o ran y darpariaethau y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu gweld yn y Mesur Addysg a Sgiliau;

Gwybodaeth am gynnydd y rhaglen brentisiaeth yng Nghymru a sut mae'n cymharu â'r rhaglen brentisiaeth yn Lloegr, yn cynnwys manylion unrhyw waith trawsffiniol sy'n digwydd;

Manylion o ran sut y caiff Cynghorwyr Adnoddau Dynol eu dosbarthu ledled Cymru i annog busnesau bach a chanolig ac unigolion i gymryd rhan mewn cynlluniau prentisiaeth;

Amserlen o ran pryd mae comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau'r DU yn bwriadu cwblhau'r gwaith o ail-drwyddedu'r Cynghorau Sgiliau Sector.

Cytunodd CBI Cymru i ddarparu:

Manylion o ran nifer y disgyblion a gaiff eu hysbysu o fanteision prentisiaeth gan gynghorwyr gyrfaoedd, er mwyn sicrhau parch cydradd rhwng hyfforddiant academaidd a hyfforddiant galwedigaethol.

**Papurau i'w nodi:**

### Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Drafft a'r ymgynghoriad ysgrifenedig: EL(3) 21-08 - Papur 3, EL(3) 21-08 - Papur 4

Cytunodd y pwyllgor ar destun ei Orchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llwybrau Di-draffig) 2009 a chwestiynau'r ymgynghoriad, a gaiff eu cyhoeddi cyn bo hir.

### Cofnodion y cyfarfod diwethaf Papur: EL(3) 20-08 - Cofnodion

Cymeradwyodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Medi 2008**